



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Canllawiau gweithredu diogel: darparwyr dysgu ôl-16

Canllawiau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer darparu dysgu'n ddiogel yn y sectorau addysg bellach, seiliedig ar waith a dysgu oedolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 Awst 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 25 Awst 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Gweithredu addysg ôl-16 ar lefel rhybudd sero

Y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol

Diogelu dysgwyr a staff sy'n agored i niwed yn glinigol

Y system o reolaethau ar gyfer dysgu ôl-16

Ymweliadau addysgol

Atodiad A: Fframwaith profi a rheoli heintiau ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion o hydref 2021

Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd y Prif Weinidog **Gynllun Rheoli diwygiedig y Coronafeirws yng Nghymru**, a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer 'lefel rhybudd sero' – cyfnod newydd sydd wedi'i gynllunio i sicrhau dull cymesur o ymdrin â COVID-19, gan adlewyrchu effaith y rhaglen frechu a chydbwysedd rhwng risgiau a niwed.

Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi'r disgwyliad y dylai lleoliadau addysg weithredu mor arferol â phosibl ar lefel rhybudd sero. Bydd mesurau sylfaenol sy'n cynnwys asesiadau risg, hylendid, awyru ac atal unigolion sydd â symptomau COVID-19 rhag mynychu yn parhau i fod ar waith, fel y nodir yn y canllawiau hyn; ond mae llawer o'r cyfyngiadau mwy difrifol o ran mynychu a'r ddarpariaeth wedi cael eu llacio fel rhan o system gymesur o reolaethau. Mae hyn yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i leoliadau addysg wneud penderfyniadau lleol, gyda chefnogaeth timau iechyd cyhoeddus ac yn seiliedig ar asesiadau risg.

Gwneir y canllawiau hyn o dan reoliad 18 o **Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau'r Coronafeirws"). Maent yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyflwyno addysg o 1 Medi 2021 yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Dylid eu darllen ar y cyd â:

- **chanllawiau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogwyr, busnesau a sefydliadau** ar lefel rhybudd sero
- y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol ar gyfer darparwyr ôl-16 yn Atodiad A, sy'n galluogi darparwyr i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol

Gweithredu addysg ôl-16 ar lefel rhybudd sero

Ar lefel rhybudd sero, mae mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr benderfynu beth sydd angen ei wneud i **reoli risgiau**. Mae nifer o'r cyfyngiadau sydd wedi rheoli lleoliadau addysg ers dechrau'r pandemig wedi'u llacio, ac maent yn gweithredu'n llawer agosach at fodel arferol. Fodd bynnag, nid yw COVID-19 wedi diflannu, ac mae lleihau'r rhyngweithio agos rhwng unigolion yn dal i fod yn bwysig er mwyn helpu i reoli ei ledaeniad.

Ar lefel rhybudd sero:

- rhaid i ddarparwyr dysgu gymryd **camau rhesymol** i amddiffyn dysgwyr, staff ac eraill rhag COVID-19 yn eu safleoedd
- rhaid i ddarparwyr dysgu sicrhau bod eu hasesiadau risg yn bodloni'r gofynion yn rheoliad 3 o **Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999**
- rhaid i ddarparwyr dysgu barhau i gynnal **asesiadau risg** coronafeirws penodol ar gyfer eu hadeiladau a'u gweithgareddau, gan adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu hyd yma a'r arferion y maent eisoes wedi'u datblygu yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ystod y pandemig

- dylai darparwyr dysgu ddilyn y system reoli a nodir yn y canllawiau hyn
- dylai darparwyr dysgu ddilyn unrhyw **ganllawiau perthnasol ar gyfer y gweithle**, lle maent yn gweithio mewn cyfleusterau megis salonau hyfforddi, bwytai neu gampfeydd
- dylai darparwyr dysgu ddilyn y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol, gan ystyried lefelau risg lleol a chyngor gan dimau rheoli achosion lluosog lleol

Asesiadau risg

Dylai darparwyr dysgu ddilyn y **canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau**, sy'n cyfeirio at y gofynion ar gyflogwyr i gynnal asesiadau risg. Mae **templed** asesu risg hefyd ar gael. I gael rhagor o arweiniad, ewch i **wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**.

O ran dysgwyr, gan gynnwys prentisiaid, y mae eu dysgu'n digwydd yn y gweithle, y cyflogwr sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr amgylchedd dysgu; ond rhaid i'r darparwr dysgu fodloni ei hun bod ei staff sy'n ymgymryd â darpariaeth y gweithle yn ddiogel. Rhaid i ddarparwyr prentisiaethau gynnal adolygiad iechyd a diogelwch o safleoedd cyflogwyr i benderfynu sut y gall aseswyr ymweld mewn ffordd ddiogel, a rhaid iddynt roi sicrwydd i'r cyflogwyr bod trefniadau priodol ar waith sy'n cyd-fynd â Rheoliadau'r Coronafeirws. Pan fo darparwyr yn trefnu lleoliadau gwaith ar ran dysgwyr, rhaid iddynt ofalu bod asesiad risg yn cael ei gynnal er mwyn iddynt fod yn sicr bod y gweithle yn ymwybodol o COVID-19 a bod camau lliniaru priodol ar waith.

Dylai darparwyr dysgu weithio gyda staff, rhieni/gofalwyr, dysgwyr a chyflogwyr fel bod eglurder ynghylch y trefniadau diwygiedig a sut y byddant yn gweithio'n ymarferol, a bod ganddynt drefniadau gweithredol ar waith i fonitro bod y rheolaethau:

- yn effeithiol
- yn gweithio yn ôl y bwriad
- yn cael eu diweddarau'n briodol, gan ystyried unrhyw faterion a nodwyd a newidiadau mewn lefelau risg lleol, unrhyw newidiadau i lefelau rhybudd lleol neu genedlaethol, a chyngor iechyd y cyhoedd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol

Mae systemau lleol sefydledig ar waith i gasglu gwybodaeth drwy system Profi Olrhain Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda lleoliadau addysg. Mae Timau Rheoli Achosion Lluosog hefyd ar waith i reoli clystyrau. Bydd yn bwysig i golegau fod yn rhan o'u Tîm Rheoli Achosion Lluosog lleol i rannu gwybodaeth ac ymateb i achosion pan fo angen.

Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i bennu lefel risg genedlaethol Cymru, a rhoddir gwybod i ddarparwyr dysgu. Mae hyn yn wahanol i'r Lefelau Rhybudd cenedlaethol. Mae Tabl 1 o'r fframwaith profi a rheoli heintiau lleol yn Atodiad A yn nodi dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio gan swyddogion iechyd cyhoeddus lleol i asesu p'un a yw'r lefel risg – ar gyfer rhanbarth, ardal neu safle darparwr dysgu unigol – yn wahanol i'r lefel risg genedlaethol. Gall hyn, er enghraifft, ddigwydd pan fydd clwstwr neu achos yn cael ei gysylltu â safle darparwr dysgu. Yn yr achosion hyn, bydd Timau Rheoli Achosion Lluosog lleol yn gweithio gyda'r darparwr i adolygu ei asesiad risg a rhoi ymyriadau cymesur ychwanegol wedi'u teilwra ar waith gan ddefnyddio Tabl 2 o'r fframwaith. Byddai unrhyw benderfyniad i argymhell ailgyflwyno ymyriadau wedi'u teilwra fel grwpiau cyswllt neu gyfyngu ar y nifer sy'n mynychu yn cael ei wneud drwy drafod ag iechyd y cyhoedd, Profi Olrhain Diogelu a'r darparwr.

Diogelu dysgwyr a staff sy'n agored i niwed yn glinigol

Dysgwyr a staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol

Gweler y [Canllawiau ar ddiogelu pobl a ddiffinnir yn glinigol ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed](#).

Os yw aelod o staff yn perthyn i'r categori sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (yn arfer hunanwarchod), dylai ei gyflogwr ddilyn y [canllawiau i](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gyflogwyr i sicrhau bod mesurau addas a digonol ar waith i leihau'r perygl o ddod i gysylltiad â COVID-19 yn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid gwneud asesiadau risg ar sail unigol ar gyfer unigolion o'r fath, gan ystyried eu hanghenion a'u hamgylchiadau personol nhw. Lle y bo'n bosibl, dylid cefnogi staff yn y grŵp hwn i barhau i weithio gartref.

Dysgwyr neu staff sydd mewn mwy o berygl

Gall unigolion sydd mewn **mwy o berygl** fynychu safle eu darparwr dysgu, cyn belled â bod mesurau diogelwch ar waith fel y nodir yn y canllawiau hyn a'r **canllawiau mesurau rhesymol**.

Mae canllawiau i fenywod beichiog a'u cyflogwyr ar gael ar **wefan** Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Gall unrhyw aelod o'r staff ddefnyddio **adnodd asesu risg Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu** i wneud hunanasesiad, ac argymhellir hyn yn benodol ar gyfer y rheini sydd mewn mwy o berygl neu sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol. Mae yna hefyd nifer o fodolau y gellir eu defnyddio i gefnogi rheolwyr i drafod ffactorau risg personol unigolion wrth ddychwelyd i'r gweithle, neu aros yno. Y nod yw hwyluso sgysiau da rhwng rheolwyr a chydweithwyr am unrhyw amgylchiadau personol a allai gynyddu eu risg o ran y coronafeirws, a'u helpu i gytuno ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd yn unol â **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999**. Mae'n bwysig bod yr holl staff a dysgwyr yn y categori hwn yn cael cyfleoedd i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt cyn iddynt fynychu eu sesiynau addysg/lleoliad gwaith.

Dysgwyr a staff sy'n bryderus ynghylch mynychu safle eu darparwr

Mae'r **canllawiau lefel rhybudd sero i'r cyhoedd** yn darparu gwybodaeth am ymddygiadau amddiffynnol a all helpu i reoli'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19.

Dylai darparwyr gadw mewn cof bryderon posibl dysgwyr a staff a allai fod yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

amharod neu'n bryderus ynghylch mynychu, gan gyfathrebu yn y ffordd iawn a rhoi'r cymorth cywir ar waith i fynd i'r afael â hyn. Gall hyn gynnwys y rhai sydd wedi bod yn hunanwarchod o'r blaen, ond sydd wedi cael gwybod nad oes angen gwneud hyn mwyach, y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae rhywun mewn mwy o berygl, neu'r rhai sy'n pryderu eu bod mewn perygl cymharol uwch o ran COVID-19, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Os yw dysgwyr neu staff sydd â ffactorau risg sylweddol (neu rieni neu ofalwyr dysgwyr) yn poeni, rydym yn argymhell bod y darparwr yn trafod eu pryderon gyda nhw, yn cynnal asesiad risg unigol ac yn rhoi sicrwydd iddynt o'r mesurau addas a digonol y mae'n eu rhoi ar waith i leihau risg mynychu.

Y system o reolaethau ar gyfer dysgu ôl-16

Mae'r system o reolaethau a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddarparu cyfres o egwyddorion ar gyfer rheoli heintiau; os bydd darparwyr dysgu yn dilyn y cyngor hwn ac yn gwneud y defnydd gorau o'r mesurau rheoli hyn, dylent leihau'r risgiau o drosglwyddo'r feirws. Mae pob elfen o'r system reolaethau yn hanfodol. Rhaid i bob darparwr dysgu roi sylw i bob un o'r elfennau hyn, ond bydd y ffordd y maent yn gweithredu rhai o'r gofynion yn wahanol yn ôl eu hamgylchiadau unigol a'u cyd-destun lleol.

Mae'r system reolaethau wedi'i nodi isod:

Atal

1. Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion lle bynnag y bo modd
2. Sicrhau nad yw unigolion sydd â **symptomau** COVID-19, sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, neu y gofynnwyd iddynt hunanynysu gan y system Profi Olrhain Diogelu, yn mynychu eu canolfan ddysgu
3. Sicrhau lefelau digonol o awyru
4. Sicrhau hylendid dwylo ac anadlol da
5. Sicrhau bod cyfundrefnau glanhau cymesur ar waith

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

6. Gwisgo gorchuddion wyneb lle bo'n ofynnol a/neu, lle bo angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol

Ymateb i unrhyw haint

7. Cydymffurfio â [strategaeth Profi Olrhain Diogelu](#) Llywodraeth Cymru a'r GIG
8. Cyfyngu ar unrhyw achosion newydd drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol

1. Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion lle bynnag y bo modd

Ar lefel rhybudd sero, nid yw'r rheoliadau bellach yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gymryd pob cam rhesymol i gadw pellter o ddau fetr rhwng unigolion. Fodd bynnag, mae cadw pellter corfforol yn dal i fod yn hynod effeithiol, ac yn dal i fod yn un o'r mesurau rhesymol y dylid eu hystyried i liniaru'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19. Mae hyn yn golygu y dylai darparwyr dysgu, fel rhan o'u hasesiadau risg, ystyried sut y gellir lleihau rhyngweithio agos wyneb yn wyneb, ochr yn ochr â'r rheolaethau eraill megis awyru a gorchuddion wyneb. Mae'r [canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau](#) yn rhoi enghreifftiau o sut y gellir hwyluso ymbellhau corfforol.

Dylai darparwyr dysgu ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r lle sydd ar gael, gan gynnwys manau awyr agored, er mwyn cadw cymaint o bellter rhwng pobl â phosibl lle bo modd. Dylid annog unigolion (dysgwyr a staff) i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd lle bynnag y gallant, gan y bydd unrhyw gamau a gymerir i leihau cyswllt yn helpu i gyfyngu ar drosglwyddo'r feirws. Os oes lle i ad-drefnu ystafelloedd dosbarth neu weithdai, manau gwaith staff, ystafelloedd cyffredin, canolfannau adnoddau a manau eraill a rennir er mwyn cadw pellter rhwng pobl, dylai darparwyr wneud hynny.

Mae dysgwyr sy'n rhyngweithio â chleientiaid neu mewn ffordd "ymarferol" gyda'i gilydd i ymarfer technegau, a dysgwyr sy'n treulio amser ar safle cyflogwyr, mewn mwy o berygl o ddal a throsglwyddo COVID-19, a dylid adlewyrchu hyn mewn asesiadau risg a chamau gweithredu a gymerir yn eu sgil.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

O 1 Medi, nid yw'n ofynnol bellach i ddarparwyr dysgu osod eu dysgwyr mewn grwpiau cyswllt. Yn hytrach, defnyddir y system olrhain cysylltiadau i nodi cysylltiadau agos dysgwyr neu staff sydd wedi profi'n bositif ac a allai orfod hunanynysu o ganlyniad. Ers 7 Awst, nid yw'n ofynnol i gysylltiadau agos sydd o dan 18 oed na'r rhai sydd dros 18 oed ac wedi'u brechu'n llawn yn y DU hunanynysu oni bai bod ganddynt symptomau neu eu bod yn profi'n bositif; mae'r **canllawiau cyfredol ar hunanynysu** yn nodi'r gofynion yn fanwl.

Dylai darparwyr dysgu gynllunio ar gyfer y posibilrwydd o ailgyflwyno grwpiau cyswllt dros dro mewn rhai amgylchiadau lleol, er mwyn helpu i leihau'r risgiau o drosglwyddo'r feirws. Byddai angen i unrhyw benderfyniad i argymhell ailgyflwyno grwpiau cyswllt gael ei wneud drwy drafod gyda swyddogion iechyd cyhoeddus a'r awdurdod lleol, fel rhan o'r fframwaith profi a rheoli heintiau lleol.

Mae gan ddarparwyr dysgu hyblygrwydd i benderfynu sut y maent yn dymuno defnyddio modelau dysgu cyfunol, i ymateb i unrhyw ofynion i hunanynysu ac i wella profiad pob dysgwr.

Dysgwyr seiliedig ar waith

Gall aseswyr prentisiaethau ymweld â gweithleoedd yn rheolaidd ar lefel rhybudd sero ar gyfer adolygiadau, asesiadau a chyfarfodydd, fel y nodir yn y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol. Dylent roi sylw i'r **canllawiau** i gyflogwyr mewn perthynas â'r gweithle ac unrhyw **ganllawiau sy'n benodol i'r diwydiant**. Gellir trefnu lleoliadau hyfforddi, yn amodol ar asesiadau risg a lefelau risg lleol, fel y nodir yn y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol.

Gweithio gartref

Ar lefel rhybudd sero, dylai pobl barhau i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl, fel rhan o ymdrechion cyffredinol Cymru i reoli lledaeniad COVID-19. Dylai darparwyr dysgu wneud eu penderfyniadau eu hunain yn lleol, gan ymgynghori â staff a'u cynrychiolwyr, ynghylch beth y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol. Dylent roi sylw i'r **canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau**, a dylent ystyried:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- p'un a allai trefniadau gwahanol gyflawni eu hanghenion busnes
- p'un a fyddai dychwelyd i'r gweithle yn effeithio'n andwyol ar les unrhyw unigolyn, gan gynnwys y rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol
- p'un a oes yna fannau gwaith penodol na ddylid eu defnyddio gan y rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu'n arbennig o bryderus ynghylch dychwelyd i'r gwaith, er enghraifft am eu bod yn fach neu heb eu hawyru'n ddigonol
- p'un a fyddai gweithio gartref yn niweidiol o ran effeithlonrwydd, gwaith tîm, cyflawni amcanion busnes, neu les y gweithwyr
- p'un a ellid defnyddio trefniadau gweithio hyblyg i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithio ar y safle a gweithio o bell

2. Lleihau'r cyswllt ag unigolion sy'n sâl drwy sicrhau nad yw unigolion sydd â **symptomau COVID-19**, neu sydd wedi profi'n positif am **COVID-19**, yn mynychu eu coleg neu eu canolfan hyfforddi, neu eu lleoliad gwaith

Ni ddylai dysgwyr na staff, o dan unrhyw amgylchiadau, fynychu safle eu darparwr dysgu neu eu gweithle os ydynt:

- yn teimlo'n sâl ag unrhyw **symptomau COVID-19**. Os felly, rhaid iddynt **hunanyysu** ar unwaith ac archebu **prawf COVID-19**
- wedi cael canlyniad positif ar gyfer COVID-19
- fod gwasanaeth **Profi Orlhain Diogelu** GIG Cymru wedi gofyn iddynt hunanyysu

Dylai darparwyr dysgu roi sylw i'r **canllawiau** i gyflogwyr ar frechiadau COVID-19 er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn staff nad ydynt wedi'u brechu. Fodd bynnag, os nodir staff nad ydynt wedi'u brechu fel cysylltiadau i achos positif, bydd yn rhaid iddynt hunanyysu yn ddieithriad, yn unol â chyfarwyddyd y system Profi Orlhain Diogelu.

Mae darparwyr dysgu yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi swyddogion olrhain cysylltiadau i ddod o hyd i gysylltiadau achos positif. Y nod cyffredinol yw lleihau nifer yr unigolion sy'n dod i gysylltiad ag achos positif. Ni ddefnyddir yr un dull

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gweithredu ym mhob sefyllfa, a bydd angen i leoliadau benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu yng ngoleuni eu cyd-destun a'u hamgylchiadau lleol.

Dylai fod gan ddarparwyr bolisi a gweithdrefnau uwchgyfeirio clir i'w dilyn pan ddaw i'r amlwg bod gan ddysgwyr neu aelod o'r staff symptomau COVID-19 tra bydd yn y coleg neu'r ganolfan. Mae angen i'r staff, y dysgwyr (os ydynt yn abl i wneud hynny) a'r rhieni/gofalwyr ddeall y rhain yn llawn.

Dylid glanhau'r arwynebau y mae'r dysgwyr neu'r staff sydd â symptomau wedi dod i gysylltiad â nhw yn ofalus ac yn drylwyr.

Dylai unrhyw un sy'n arddangos symptomau COVID-19 aros gartref a hunanynysu, a threfnu i gael prawf PCR. Mae **canllawiau hunanynysu** Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau i'w dilyn a'r cyfnodau ynysu sy'n ofynnol ar gyfer y rhai y gallai fod ganddynt COVID-19 neu y cadarnhawyd ei fod ganddynt, ynghyd ag aelodau eu haelwyd, a dylid darllen y rhain yn ofalus a'u dilyn.

Ni ddylai dysgwyr na staff sydd wedi cael canlyniad prawf llif unffordd positif fynychu safle eu darparwr dysgu, a dylent drefnu prawf PCR i'w gadarnhau.

3. Sicrhau lefelau digonol o awyru

Mae **dyletswydd gyfreithiol** ar y rheini sy'n rheoli safleoedd i sicrhau eu bod wedi'u hawyru'n effeithiol. Mae cyngor pellach ar awyru wedi'i nodi yn y **canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau**.

4. Sicrhau hylendid dwylo ac anadlol da

Mae golchi dwylo'n drylwyr ac yn aml gyda sebon a dŵr o'r tap neu hylif diheintio dwylo yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o ddal COVID-19. Mae'n bwysig bod pawb yn parhau i ddilyn mesurau hylendid anadlol drwy ddal eu peswch a'u tisian, taflu hancesi papur a ddefnyddiwyd mewn man diogel ar unwaith, a golchi eu dwylo'n syth wedyn. Mae dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchi eich dwylo' yn parhau i fod yn bwysig iawn. Rhaid i ddarparwyr, felly, sicrhau bod ganddynt ddigon o ddyfeisiau hylif diheintio, hancesi papur a biniau i gefnogi dysgwyr a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

staff i ddilyn y drefn hon.

Dylai darparwyr, drwy negeseuon ac arwyddion, atgoffa pob dysgwr o'r angen i lanhau eu dwylo'n rheolaidd, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd, pan fyddant yn dychwelyd o seibiannau, pan fyddant yn mynd i ystafell newydd, ar ôl rhoi gorchudd wyneb ymlaen neu ei dynnu, a chyn ac ar ôl bwyta. Bydd angen parhau i lanhau dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr am gryn amser i'r dyfodol.

Mae'n bwysig hefyd bod staff a dysgwyr yn parhau i wisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cyhoeddus dan do ac mewn mannau eraill lle mae asesiad risg wedi nodi bod hyn yn gam rhesymol i'w gymryd (gweler adran 6).

Dylai dysgwyr ag anghenion cymhleth barhau i gael eu helpu i lanhau eu dwylo'n iawn. Efallai y bydd rhai dysgwyr ag anghenion cymhleth yn ei chael yn anodd dilyn mesurau hylendid anadlol da yn effeithiol. Dylid ystyried hyn mewn asesiadau risg er mwyn eu cefnogi nhw a'r staff sy'n gweithio gyda nhw.

5. Sicrhau bod cyfundrefnau glanhau cymesur ar waith

Mae angen i **gyfundrefnau glanhau** fod yn gymesur ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw glefyd trosglwyddadwy tebyg arall. Nid oes angen i ddarparwyr dysgu neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer glanhau trylwyr fel mater o drefn. Fodd bynnag, os oes achos wedi'i gadarnhau yn safle'r darparwr, bydd glanhau'r ardal gyfagos yn drylwyr yn parhau i fod o gymorth i leihau'r trosglwyddiad.

6. Gwisgo gorchuddion wyneb lle bo'n ofynnol a/neu, lle bo angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol

Gorchuddion wyneb

O 1 Medi, nid yw gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn yn yr amgylchedd addysgu a dysgu – ee ystafelloedd dosbarth neu weithdai. Gellir penderfynu p'un a oes angen defnyddio gorchuddion wyneb yn yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

amgylcheddau hyn ar sail yr asesiad risg ar gyfer pob ardal o fewn y safle.

Dylai staff a dysgwyr wisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd dan do a rennir, ac mewn ardaloedd eraill lle mae'n anodd cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr. Dylai hyn fod yn rhan o asesiad risg darparwr, gan gydnabod bod y cynllun daearyddol mewn rhai ardaloedd a rennir fel coridorau, a rhai ardaloedd gweithio, yn golygu na all unigolion gadw ar wahân i'r un graddau, a'i bod yn anodd cadw at fesurau rheoli eraill. Dylid gwisgo gorchuddion wyneb hefyd ar gludiant penodol darparwyr, gan gyd-fynd â'r gofyniad sy'n parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Dylai ymwelwyr eraill sy'n mynd i rannau cyhoeddus o safle'r darparwr wisgo gorchuddion wyneb, gan gynnwys rhieni, contractwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Dylai darparwyr dysgu ystyried yn eu hasesiadau risg ar gyfer pob canolfan p'un a oes gan y cyhoedd (unigolion ar wahân i staff neu ddysgwyr) fynediad at ardaloedd cyhoeddus, neu p'un a ganiateir mynediad iddynt, wrth benderfynu ble y dylid defnyddio gorchuddion wyneb.

Yn gyffredinol, nid oes angen gorchuddion wyneb yn yr awyr agored, oni bai bod yr ardal yn orlawn neu'n gyfyngedig lle nad yw cadw pellter cymdeithasol yn bosibl, ac ni ddylid eu gwisgo wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu ffitrwydd.

Rhaid i ddysgwyr ar leoliadau gwaith a thiwtoriaid sy'n ymweld gadw at y trefniadau sydd ar waith yn y gweithleoedd hynny.

Efallai y bydd angen darparu gorchuddion wyneb i ddysgwyr na allant gael gafael arnynt drwy ddulliau eraill, os cânt eu hargymell mewn asesiadau risg neu yn eu lleoliadau gwaith. Dylai darparwyr fod yn sensitif i anghenion y rhai a allai fod yn eithriadau, megis pobl â chyflyrau meddygol, anghenion cymhleth sy'n golygu na allant ddefnyddio gorchudd wyneb yn gywir, a'r rhai sy'n siarad â rhywun sy'n fyddar neu sy'n darparu cymorth i rywun sy'n fyddar neu sydd â nam ar ei glyw. Dylai darparwyr roi systemau ar waith i sicrhau bod staff yn gwybod pryd a sut i herio'r rhai nad ydynt yn defnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cyhoeddus neu a rennir.

Pan wneir penderfyniad i ofyn i bobl wisgo gorchudd wyneb, byddem yn annog

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

unigolion i ddefnyddio gorchuddion amldefnydd/y gellir eu hailgylchu a'u defnyddio'n gywir, gan orchuddio'r geg a'r trwyn. Dylai eu dwylo fod yn lân cyn eu gwisgo a dylent olchi eu dwylo ar ôl eu tynnu. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell y dylai fod tair haen i orchuddion wyneb, ond ni ddylent fod yn fgydau meddygol.

Beth bynnag fo polisi eu darparwr, gall dysgwyr a staff ddewis defnyddio gorchuddion wyneb i leihau'r risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill, a dylid eu hannog i wneud hynny os yw hyn yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus ynghylch mynychu eu coleg neu eu lleoliad dysgu. Os oes unrhyw un yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb am resymau personol yn unrhyw le ar y safle, dan do neu yn yr awyr agored, pan nad yw'n orfodol, dylid caniatáu iddo wneud hynny. Gall hyn helpu i gefnogi lles ehangach, lleihau pryder a rhoi sicrwydd ychwanegol i rai unigolion ochr yn ochr â mesurau lliniaru eraill.

Cyfarpar Diogelu Personol

Cyfarpar a gaiff ei weithgynhyrchu i safon a reoleiddir yw cyfarpar diogelu personol er mwyn rhoi lefel benodol o amddiffyniad i'r gwisgwr rhag perygl iechyd neu ddiogelwch. Nodir yr amgylchiadau lle gallai fod angen ei wisgo isod.

- Achosion a amheuir o COVID-19
 - Dylid gwisgo menig, ffedogau a mygydau llawfeddygol atal hylif os bydd unigolyn yn mynd yn sâl â symptomau COVID-19 a bod angen gofal personol uniongyrchol arno
 - Dylid hefyd gwisgo cyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn nodi bod risg o dasgu haint i'r llygaid, er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny
 - Dylid gwisgo menig a ffedogau wrth lanhau'r ardaloedd lle mae rhywun yr amheuir bod COVID-19 arno wedi bod
- Gofal personol
 - Dylid parhau i ddefnyddio menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol i ddysgwr. Gall hyn gynnwys gofal ymarferol fel ei olchi, mynd ag ef i'r toiled neu roi cymorth cyntaf iddo, a rhai gweithdrefnau clinigol megis cymorth i fwyta

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Dylid hefyd gwisgo mwgwd llawfeddygol atal hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn nodi bod risg o dasgu haint i'r llygaid, er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny
 - Nodir menig, gynau gwrthsefyll hylif, mygydau FFP3 a chyfarpar diogelu'r llygaid wrth ymgymryd â gweithdrefnau gofal sy'n cynhyrchu aerosol fel gweithdrefnau sugno
 - Dylid defnyddio menig a ffedogau wrth lanhau cyfarpar neu arwynebau y mae'n bosibl eu bod wedi cael eu halogi gan hylifau o'r corff fel poer neu secretiadau anadlol
- Dysgu galwedigaethol
 - Os yw dysgwyr yn astudio rhaglenni galwedigaethol neu raglenni seiliedig ar waith, dylai darparwyr dysgu roi sylw i unrhyw **ganllawiau ar gyfer y gweithle** sy'n benodol i'r diwydiant. Lle bydd lleoliadau gwaith yn ei gwneud yn ofynnol gwisgo cyfarpar diogelu personol sy'n unol â safon y diwydiant, rhaid i'r sawl sydd ar leoliad ac aseswyr sy'n ymweld gydymffurfio â'r gofynion yn hyn o beth
 - Ar gyfer diwydiannau "cyswllt agos" fel trin gwallt neu ofal, lle bydd dysgwyr yn dod i gysylltiad corfforol â chleientiaid neu â'i gilydd er mwyn dysgu sgiliau a chynnal asesiadau, rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol i safon y diwydiant

Dylai dysgwyr a staff gael hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn iawn, lle bo'n berthnasol. Dylai pob aelod o staff ddeall sut i wisgo neu dynnu cyfarpar meddygol yn y drefn gywir, gwaredu'r gwastraff yn ddiogel a dilyn camau hylendid dwylo cywir i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Dylid golchi dwylo bob amser cyn gwisgo cyfarpar meddygol ac ar ôl ei dynnu.

7. Cydymffurfio â **strategaeth Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru a'r GIG**

Mae'r broses **Profi Olrhain Diogelu** yn gweithio fel a ganlyn:

- profi'r bobl hynny sydd â symptomau COVID-19, gan ofyn iddynt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hunanyngysu tra byddant yn cymryd prawf ac yn aros am y canlyniad. Mae gwybodaeth ac arweiniad ar sut i wneud cais am brawf ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**

- olrhain y bobl hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â phobl sydd wedi profi'n positif am y feirws, a nodi'r rhai y mae angen iddynt hunanyngysu. Ers 7 Awst 2021, mae swyddogion olrhain cysylltiadau yn defnyddio Gwasanaeth Imiwneiddio Cymru i nodi'r oedolion sydd wedi cael eu brechu'n llawn yn y DU ac nad oes angen iddynt hunanyngysu yn sgil dod i gysylltiad ag achos positif. Nid oes angen i unigolion o dan 18 oed a nodir fel cysylltiadau i achos positif hunanyngysu oni bai eu bod yn datblygu symptomau neu'n profi'n positif eu hunain
- er nad yw'n ofynnol mwyach i unigolion o dan 18 oed nac oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn yn y DU hunanyngysu yn sgil cael eu nodi fel cysylltiadau, bydd y system Profi Olrhain Diogelu yn rhoi cyngor ac arweiniad iddynt drwy wasanaeth "rhybuddio a hysbysu". Mae rhagor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau a sut mae'r system yn gweithio ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**. Os bydd rhywun sydd wedi'i eithrio rhag gorfod hunanyngysu yn sgil dod i gysylltiad ag achos positif yn datblygu symptomau neu'n profi'n positif ei hun, yna dylai hunanyngysu, gan nad oes eithriad mewn sefyllfa felly
- os nad yw'r symptomau o ganlyniad i COVID-19, sicrhau y gall yr unigolion a'u cysylltiadau ailgydio yn eu trefniadau arferol cyn gynted â phosibl
- darparu cyngor ac arweiniad, yn enwedig os yw'r person sydd â symptomau neu ei gysylltiadau yn perthyn i'r grŵp sy'n **eithriadol o agored i niwed yn glinigol** neu'r grŵp sydd mewn **mwy o berygl**

Dylai darparwyr atgyfnerthu'r negeseuon hyn ac, yn benodol, atgoffa pawb sy'n arddangos unrhyw un o symptomau'r feirws i hunanyngysu ar unwaith ac archebu prawf.

Os bydd unigolyn yn profi'n positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r person a brofwyd i helpu i nodi cysylltiadau posibl. Ers 7 Awst 2021, nid oes rhaid i gysylltiadau dan 18 oed na'r rhai sydd wedi'u brechu'n llawn yn y DU hunanyngysu oni bai eu bod nhw eu hunain yn dechrau arddangos symptomau COVID-19 neu'n profi'n positif eu hunain. Bydd swyddogion olrhain cysylltiadau hefyd yn cysylltu â chysylltiadau agos nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn ac

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn eu cyngori i hunanyngysu.

Nid oes angen cau safle lle mae rhywun wedi profi'n positif. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd', a phan fydd darparwyr yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros boeni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau** ar gadw cofnodion ar staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr. Gall darparwyr ddefnyddio hyn fel un o'r mesurau rhesymol i helpu i nodi unigolion a allai fod wedi dod i gysylltiad â COVID-19.

Er mwyn cefnogi gweithrediad lleoliadau addysg, mae profion llif unffordd ar gael i staff a dysgwyr y darparwyr. Mae canllawiau ar gael drwy **fanc asedau profion llif unffordd**.

8. Rheoli achosion a gadarnhawyd o fewn safle'r darparwr a chyfyngu ar unrhyw achosion newydd, drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol

Gan adeiladu ar y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (2020), mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu **cyngor penodol ynghylch rheoli ac ymchwilio i glystyrau ac achosion lluosog o COVID-19**.

Os oes sawl achos o COVID-19 ar safle darparwr dysgu, yna bydd arbenigwyr, gan gynnwys Profi Olrhain Diogelu, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Thimau Rheoli Achosion Lluosog yn cydweithio i atal trosglwyddo pellach. Bydd timau Profi Olrhain Diogelu rhanbarthol yn penodi arweinydd clir i ymchwilio i glwstwr, a bydd yn gweithio gyda phennaeth y darparwr neu ei ddirprwy enwebedig. Bydd cyngor sy'n seiliedig ar asesiad pob sefyllfa unigol yn cael ei ddarparu i gefnogi'r darparwr i atal lledaeniad pellach, gan ddefnyddio'r ymyriadau ychwanegol sydd wedi'u teilwra a nodwyd yn y fframwaith profi a rheoli heintiau lleol.

Fel arfer, y system Profi Olrhain Diogelu sy'n gyfrifol am gysylltu â phob achos positif ac am gasglu gwybodaeth am eu cysylltiadau agos o fewn a thu allan i safle'r darparwr. Gall darparwyr dysgu weithio gyda'u timau Profi Olrhain Diogelu lleol i gytuno ar eu trefniadau eu hunain i nodi a hysbysu cysylltiadau agos, er

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mwyn sicrhau bod y broses olrhain yn effeithlon ac yn amharu cyn lleied ag y bo modd ar ddysgu.

Ymweliadau addysgol

Dylai darparwyr dysgu sy'n dymuno trefnu unrhyw fath o ymweliad addysgol, gan gynnwys y rhai sy'n golygu aros dros nos, sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal. Dylai hyn gynnwys trefniadau ar gyfer beth fydd yn digwydd os bydd aelod o'r grŵp yn datblygu symptomau COVID-19 yn ystod yr ymweliad.

Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi creu gwybodaeth am oblygiadau yn ymwneud ag yswiriant teithio yn dilyn COVID-19. Os oes gan ysgolion a lleoliadau unrhyw gwestiynau pellach am eu hyswiriant, dylent gysylltu â'u darparwr yswiriant teithio.

Mae canllawiau pellach ynghylch ymweliadau addysgol ar gael gan y Panel Cyngorwyr Addysg Awyr Agored, sydd wedi datblygu [canllawiau](#) a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion a lleoliadau sy'n ystyried trefnu ymweliadau.

Atodiad A: Fframwaith profi a rheoli heintiau ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion o hydref 2021

Mae'r fframwaith hwn yn darparu mesurau profi a rheoli heintiau ar gyfer darparwyr dysgu ôl-16 o fis Medi 2021, ac yn nodi sut y gellir amrywio'r mesurau hyn mewn ymateb i'r pandemig. Mae'n sail i drefniadau gweithredol darparwyr yn ogystal â helpu dysgwyr, staff a'r gymuned ehangach i ddeall sut y bydd y gyfres hon o fesurau'n gweithio yn y dyfodol.

Dylid darllen y fframwaith ar y cyd â'r canllawiau gweithredu diogel. Esbonnir mesurau eraill a ddylai aros yn eu lle, ni waeth beth fo'r lefelau risg lleol, gan gynnwys:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Dylid atgoffa'r holl staff a dysgwyr i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer hunanynysu fel y bo'n briodol a'u cyfarwyddo i beidio â mynychu os oes ganddynt unrhyw symptomau neu os cânt brawf positif
- Dylai staff a dysgwyr gael prawf PCR cyn gynted ag y bydd ganddynt symptomau neu'n cael canlyniad positif i brawf llif unffordd
- Golchi dwylo'n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol ac etiquette anadlol (ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchi eich dwylo) i atal a chyfyngu ar ledaeniad achosion a chlystyrau
- Awyru digonol drwy agor ffenestri neu addasu systemau awyru
- Parhau i roi mesurau rhesymol ar waith megis cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb lle bo'n briodol

Dylid defnyddio'r fframwaith, ni waeth beth fo'r lefel rhybudd y mae Cymru neu ardal benodol ynddi ar adeg benodol. Er enghraifft, ar lefel rhybudd sero, gallai clwstwr o achosion positif mewn ardal ddaearyddol benodol (ee yn y gymuned lle mae darparwr wedi'i leoli) arwain darparwr i ddefnyddio'r fframwaith i asesu lefel y risg a rhoi mesurau lleol ar waith, hyd yn oed os nad yw'r lefel rhybudd o dan y Rheoliadau yn newid ar gyfer yr ardal benodol honno.

Fodd bynnag, rhaid nodi:

- Pan fo lefel rhybudd o dan y Rheoliadau yn galw am ofynion llymach na'r hyn a nodir yn y fframwaith hwn, yna rhaid cadw at y gofynion llymach hynny
- Os nad oes gofynion, neu os yw'r gofynion yn llai caeth o dan lefel rhybudd o dan y Rheoliadau, yna dylid dilyn y dull gweithredu a nodir o dan y lefel risg berthnasol yn y fframwaith. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid dilyn unrhyw fesurau rhesymol ychwanegol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws neu o'i ledaenu a nodwyd yn sgil asesiad risg darparwr

Ar hyn o bryd mae Cymru ar lefel rhybudd sero, ac mae lefel gyffredinol y risg ar gyfer Cymru yn isel. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i ddarparwyr dysgu pan fydd y lefelau rhybudd yn newid.

Yn achos llawer o'r mesurau a restrir isod, gallai fod angen cymryd camau graddol rhyngddynt i adlewyrchu'r risgiau penodol a nodwyd gan y darparwr mewn perthynas â'i safleoedd, ei staff, ei ddysgwyr a'i gymunedau. Wrth i bob darparwr eu defnyddio, dylid ymateb yn ddeinamig ar sail gwybodaeth leol, a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

chyngor gan Lywodraeth Cymru, Prif Swyddog Meddygol Cymru, y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd, a gweithwyr proffesiynol eraill. Gellir dwysáu a dad-ddwysáu mesurau yn unol â hynny, a dylid gwneud hynny, yn seiliedig ar brosesau asesu risg sefydledig.

Mae Tabl 1 yn nodi'r sgoriau risg cyffredinol, ac mae Tabl 2 yn nodi'r fframwaith mesurau y bydd darparwyr yn ei ddefnyddio mewn ymateb i newidiadau yn y sgoriau risg hynny.

Tabl 1: Sgoriau risg cyffredinol

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
Isel	<ul style="list-style-type: none">Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau ddos o frechlyn COVID-19 ac nid oes tystiolaeth bod imiwnedd yn gwanhauEfallai fod nifer yr achosion dros gyfnod o 7 diwrnod yn cynyddu, ond caiff mwyafrif yr achosion eu cofnodi ymhlith y rhai sy'n 30 oed neu'n iau nad ydynt wedi cael eu brechu neu sydd ond wedi cael un dosMae canran yr achosion yn y gymuned lle mae angen i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty yn isel o hydMae nifer y marwolaethau yn isel	<ul style="list-style-type: none">Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiauCysylltir ag achosion cyn gynted â phosibl fel y gellir cynghori cysylltiadau agos yn unol â'u hamgylchiadau. Bydd hyn yn cynnwys cynnig prawf PCR a bydd rhai yn cael eu cynghori i hunanynysu er mwyn lleihau'r risg y caiff yr haint ei ledaenu ymhellachMae camau'n parhau i gael eu cymryd yn lleol i annog y rhai nad oeddent yn awyddus i gael y brechlyn ar y cynnig cyntaf i wneud hynnyYmgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau y gall ymddygiadau da mewn lleoliadau risg uchel (ardaloedd nad ydynt wedi'u hawyru'n dda ac ardaloedd gorlawn) barhau a bod cymunedau'n barod i dderbyn hynMae asiantaethau'n gwneud gwaith rhagweithiol ym mhob sector i sicrhau y gallant weithio mewn amgylchedd sy'n seiliedig ar risgCymryd camau ymatebol i orfodi busnesau i gydymffurfio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>o hyd</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw nifer yr unigolion sy'n hunanynysu yn peri risg i wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol na goleuadau glas rheng flaen Mae camau gan awdurdodau lleol i orfodi busnesau i gydymffurfio yn isel o hyd Ychydig iawn o'r haint sy'n cael ei gyflwyno mewn lleoliadau caeedig neu ysgolion Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn o ddiddordeb neu bryder wedi'i nodi 	
Cymedrol	<ul style="list-style-type: none"> Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau ddos o frechlyn COVID-19 ac nid oes tystiolaeth bod imiwnedd yn gwanhau Mae nifer yr achosion o'r haint dros gyfnod treigl o 7 diwrnod yn parhau i gynyddu. Ymatebir i bob achos 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiau Yn ogystal ag ymateb i bob achos newydd o'r haint, mae gwaith olrhain tuag yn ôl yn parhau a gall hyd yn oed ddarparu tystiolaeth bod y cadwyni trosglwyddo o risgiau hysbys yn plannu'r haint yn y gymuned ehangach Ar y cam hwn, caiff risgiau hysbys (e.e.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>newydd o'r haint ac mae tystiolaeth gan Profi, Orlhain, Diogelu yn dangos er bod mwyafrif yr achosion yn dal i fod ymhlith y boblogaeth iau symudol, fod nifer yr achosion o'r haint ymhlith y rhai 60 oed a hŷn wedi dechrau cynyddu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae derbyniadau i ysbytai yn cynyddu o sylfaen isel ond mae canran yr achosion yn y gymuned lle mae angen derbyn cleifion i'r ysbyty yn isel o hyd • Mae nifer y marwolaethau yn isel o hyd • Mae achosion o'r haint yn ymddangos yn gynyddol mewn cartrefi gofal (yn aml aelod unigol o staff) ac ysgolion sy'n awgrymu bod trosglwyddiad sylweddol yn y gymuned • Mae camau gorfodi gan awdurdodau lleol yn cynyddu. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o achosion o ddiffyg cydymffurfio gan fusnesau sy'n 	<p>tafarndai/clybiau gwlyb) mewn perthynas â dal yr haint eu hystyried, a bydd hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau i gyflwyno mwy o gamau ac adnoddau cyfathrebu lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae pwerau gorfodi awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau cyfyngu ac mewn ymateb i glystyrau o achosion • Cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu'n lleol â sectorau busnes penodol lle mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o risg barhaus • Gall tystiolaeth gan Profi, Orlhain, Diogelu awgrymu nad oes un sector penodol yn gyfrifol am drosglwyddo'r haint, ond bod diffyg dealltwriaeth o'r ymddygiadau personol a all leihau'r risg o ddal yr haint a'r risg bosibl i eraill. Bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu ag aelodau'r gymuned a'u helpu i ddeall eu risg bersonol a'r risg i'r boblogaeth ehangach • Mae camau'n dal i gael eu cymryd yn lleol i annog y rhai nad oeddent yn awyddus i gael y brechlyn ar y cynnig cyntaf i wneud hynny

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>gysylltiedig â chlystyrau o achosion o'r haint</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn o ddiddordeb neu bryder wedi'i nodi 	
Uchel	<ul style="list-style-type: none"> Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau ddos o frechlyn COVID-19. Mae nifer yr achosion o'r haint ymhlith y boblogaeth sydd wedi'i brechu yn cynyddu a gall hyn awgrymu bod imiwnedd yn gwanhau Nid yw pob achos newydd o'r haint yn cael ei ymchwilio. Caiff adnoddau eu targedu at glystyrau o achosion ac achosion lluosog mewn lleoliadau risg uchel (e.e. cartrefi gofal). Mae'r haint yn cael ei drosglwyddo'n eang yn y gymuned fel y dangosir gan nifer o glystyrau bach mewn aelwydydd a chlystyrau 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiau Yn gynyddol, mae camau gweithredu'n canolbwyntio ar leihau'r risg i gymunedau sy'n agored i niwed a thargedu clystyrau mwy o faint er mwyn lleihau niwed Mae dibyniaeth gynyddol ar gydgyfwrth er mwyn hyrwyddo'r neges hunanynysu a nodi cysylltiadau, o leiaf. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff gwaith olrhain tuag yn ôl ei wneud Mae strategaeth brofi ehangach wedi cael ei rhoi ar waith yn lleol er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael profion a nodi achosion o'r haint ymhlith unigolion symptomatig a'r rhai asymptomatig Cynhelir adolygiad epidemiolegol manwl ynghyd ag asesiad o'r angen i ailgyflwyno ymyriadau anfferyllol yn ychwanegol at y rhai sy'n wirfoddol (cadw pellter cymdeithasol, gwisgo masg mewn sefyllfaoedd risg uchel, golchi dwylo'n aml, cwrdd yn yr awyr agored lle y bo hynny'n bosibl, ac ati)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>cymdeithasol mewn gweithleoedd agored a chaeedig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cyfradd yr achosion ymhlith pobl dros 60 oed yn cynyddu ac mae canran yr achosion yn y gymuned lle mae angen derbyn cleifion i'r ysbyty wedi cynyddu • Mae nifer y marwolaethau yn cynyddu • Mae nifer y staff sy'n hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau rheng flaen • Mae nifer y cleifion a dderbynnir i'r ysbyty yn cynyddu ac mae'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol i'w gweld yn nifer y cartrefi gofal yn y categori 'coch', sy'n golygu na ellir rhyddhau pobl oedrannus, sydd yn ei dro yn arwain at dagfeydd yn y GIG • Mae nifer y staff sy'n hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a 	<ul style="list-style-type: none"> • Pe na bai ymateb gwirfoddol y gymuned fel y'i diffinnir yn ddigon i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer yr achosion o'r haint, dylid gwneud cais i Lywodraeth Cymru am ragor o bwerau lleol • Wrth gefnogi'r bobl hynny sy'n agored i niwed, bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn gweithio gyda lleoliadau caeedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi profi y cytunwyd arno er mwyn lleihau'r gyfradd heintio i'r eithaf • Bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn ystyried ac yn cefnogi'r gwaith o brofi staff gwasanaethau rheng flaen yn ddyddiol er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith a chynnal gwasanaethau allweddol • Mae swyddogion gorfodi yn gweld yn gyson mai sectorau lle mae diffyg cydymffurfiaeth yn gyffredin yw'r fectorau ar gyfer lledaenu'r haint. Caiff ymyriadau eu targedu at y sectorau hyn • Mae camau'n dal i gael eu cymryd yn lleol i annog y rhai nad oeddent yn awyddus i gael y brechlyn ar y cynnig cyntaf i wneud hynny

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>goleuadau glas rheng flaen</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae tystiolaeth gynyddol bod achosion o ddiffyg cydymffurfio gan fusnesau yn gysylltiedig â chlystyrau o achosion o'r haint Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn newydd o ddiddordeb neu o bryder yn ysgogi'r cynnydd yn nifer yr achosion o'r haint 	
Uchel lawn	<ul style="list-style-type: none"> Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau dds o frechlyn COVID-19. Mae nifer yr achosion o'r haint ymhlith y boblogaeth sydd wedi'i brechu yn cynyddu a gall hyn awgrymu bod imiwnedd yn gwanhau Mae nifer yr achosion o'r haint dros gyfnod treigl o 7 diwrnod yn cynyddu ym mhob grŵp oedran Mae cynnydd esbonyddol yn nifer yr 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiau Mae'r Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn deall bod yr haint yn cael ei drosglwyddo mor gyflym yn y gymuned fel mai dim ond mesurau a fydd yn lleihau cyswllt rhwng pobl yn sylweddol a fydd yn torri'r cadwyni trosglwyddo Mae trefniadau cyfathrebu, profi a brechu ehangach ar waith, gan gynnwys trefniadau profi i gynnal gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a goleuadau glas rheng flaen Mae adolygiad o ymyriadau a chamau gweithredu anfferyllol hyd yma yn awgrymu na ellir gwneud mwy gyda phwerau lleol i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>achosion o'r haint mewn lleoliadau caeedig. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn blaenoriaethu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Nid yw olrhain achosion tuag yn ôl yn ymarferol mwyach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith adolygu epidemiolegol yn dangos bod y feirws yn lledaenu ar hap drwy'r ardal gyfan ac nad oes dealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sy'n ei ysgogi na thystiolaeth i ddangos nad yw'r ymyriadau cenedlaethol a lleol yn effeithiol mwyach • Mae'r Timau Gorfodi ar y Cyd wedi eu gorlethu • Mae nifer y marwolaethau yn parhau i gynyddu • Mae nifer y staff sy'n hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau rheng flaen • Mae achosion a chlystyrau o achosion yn cael effaith ddifrifol ar addysg • Mae gwasanaethau iechyd a gofal 	<p>leihau'r gyfradd drosglwyddo o berson i berson</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg gan Dimau Rheoli Achosion Lluosog bod gofynion y Rheoliadau Cyfyngu yn annigonol • Gall y Tîm Rheoli Achosion Lluosog wneud cais am i ymyriadau penodol gael eu cyflwyno i gefnogi'r gofyniad i gyfyngu ar gyswllt rhwng pobl • Caiff sylwadau eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn argymhell y dylid cymryd camau lliniaru pellach. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw camau lliniaru yn briodol ar gyfer yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd. Wrth ystyried y cais, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys cyffredinrwydd yr haint ledled Cymru, yr effaith y mae COVID-19 yn ei chael ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, a'r cyfraniad y mae brechlynnau yn ei wneud o ran gwanhau'r cysylltiad rhwng yr haint a marwolaethau a morbidrwydd, er mwyn penderfynu ai dull gweithredu lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sy'n briodol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>cymdeithasol dan bwysau</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn newydd o ddiddordeb neu o bryder yn ysgogi'r cynnydd yn nifer yr achosion o'r haint 	

Tabl 2: Fframwaith risg ar gyfer darparwyr ôl-16

Lefel y risg gyffredinol	Risg isel	Risg gymedrol	Risg uchel	Risg uchel iawn
Lleihau rhyngweithio agos	Gweithredu trefniadau gyda'r nod o leihau rhyngweithio agos (o fewn 2m) cyn belled ag y mae'n rhesymol, yn seiliedig ar asesiad risg.	Gweithredu trefniadau gyda'r nod o leihau rhyngweithio agos (o fewn 2m). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, peidio â threfnu cynullïadau a digwyddiadau mawr dan do; systemau unffordd; cynlluniau eistedd cyson; arwyddion llawr neu ddefnyddio manau awyr agored lle bo hynny'n bosibl.		<p>Lle bo'n bosibl, gweithio neu astudio gartref ddylai fod yn arferol.</p> <p>Dim ond ymwelwyr hanfodol ar y safle.</p> <p>Lleihau'r rhyngweithio agos rhwng unigolion i'r lefel ymarferol isaf bosibl.</p> <p>Yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer risg is, defnyddio grwpiau cyswllt a/</p>

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg gyffredinol	Risg isel	Risg gymedrol	Risg uchel	Risg uchel iawn
				neu ddysgu cyfunol/o bell.
Profion i staff a dysgwyr	Ychydig o brofion llif unffordd rheolaidd, os o gwbl. Profion PCR ar gael ar gyfer y rheini y cadarnhawyd eu bod yn gysylltiadau i achosion positif.	Profion wedi'u targedu/â ffocws a ddefnyddir lle mae risgiau lleol wedi'u nodi gan Dîm Rheoli Achosion Lluosog. Profion PCR ar gael ar gyfer y rheini y cadarnhawyd eu bod yn gysylltiadau i achosion positif.	Annog staff a dysgwyr i wneud profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos er mwyn helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn gynted â phosibl.	Profion llif unffordd ar gael ddwywaith yr wythnos a phwyso ar staff a dysgwyr i fanteisio arnynt er mwyn helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn gynted â phosibl.
Gorchuddion wyneb	Nid yw gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn mewn ystafelloedd dosbarth/gweithdai. Gellir gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd dan do a rennir, a gweithleoedd eraill fel ystafelloedd dosbarth ac ati, lle mae asesiad risg yn nodi na ellir cynnal pellter o ddau fetr. Dylid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal gyhoeddus dan do y mae gan	Dylid gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd dan do a rennir lle na ellir cynnal pellter cymdeithasol, ac eithrio mewn ystafelloedd dosbarth/ gweithdai, oni nodir hyn yn fesur rhesymol mewn asesiad risg. Dylid gwisgo	Dylid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal dan do ar holl safleoedd darparwr lle na ellir cynnal pellter cymdeithasol, gan gynnwys mewn ystafelloedd dosbarth/ gweithdai. Dylid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob	

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg gyffredinol	Risg isel	Risg gymedrol	Risg uchel	Risg uchel iawn
	y cyhoedd fynediad atynt neu y caniateir mynediad iddynt (er enghraifft, derbynfeydd, cyfleusterau sydd ar agor i'r cyhoedd), ac ar drafnidiaeth benodol/gyhoeddus.	gorchuddion wyneb ym mhob ardal gyhoeddus dan do y mae gan y cyhoedd fynediad atynt neu y caniateir mynediad iddynt (er enghraifft, derbynfeydd, cyfleusterau sydd ar agor i'r cyhoedd), ac ar drafnidiaeth benodol/gyhoeddus.	gorchuddion wyneb ym mhob ardal gyhoeddus dan do y mae gan y cyhoedd fynediad atynt neu y caniateir mynediad iddynt (er enghraifft, derbynfeydd, cyfleusterau sydd ar agor i'r cyhoedd), ac ar drafnidiaeth benodol/gyhoeddus.	ardal gyhoeddus dan do y mae gan y cyhoedd fynediad atynt neu y caniateir mynediad iddynt (er enghraifft, derbynfeydd, cyfleusterau sydd ar agor i'r cyhoedd), ac ar drafnidiaeth benodol/gyhoeddus.
Chwaraeon a lles corfforol	Gellir cynnal gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd mewn colegau a lleoliadau darparwyr dysgu eraill, gan gynnwys hyfforddiant a chystadlaethau o fewn colegau, yn amodol ar asesiadau risg a chan ddilyn unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol perthnasol ar gyfer y gamp dan sylw.	Dim ond yn yr awyr agored ac o fewn grwpiau cyswllt y dylid cynnal gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd, neu gan gadw pellter cymdeithasol lle mae'r unigolion yn perthyn i fwy nag un grŵp cyswllt, yn amodol ar asesiadau risg.	Dim ond pan fo'n hanfodol i ennill cymhwyster y dylid cynnal gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd, yn amodol ar asesiadau risg.	
Cystadlaethau chwaraeon	Gellir cynnal gemau chwaraeon ar draws gwahanol grwpiau o fewn coleg neu rhwng gwahanol golegau, yn		Ni ddylid cynnal gemau chwaraeon rhwng gwahanol grwpiau o fewn coleg na rhwng gwahanol golegau.	

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg gyffredinol	Risg isel	Risg gymedrol	Risg uchel	Risg uchel iawn
	amodol ar asesiadau risg, a chan ddilyn unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol perthnasol ar gyfer y gamp dan sylw.			
Ymweliadau â'r gweithle gan aseswyr prentisiaethau	Gall ymweliadau â'r gweithle ddigwydd yn rheolaidd yn amodol ar wiriadau iechyd a diogelwch.		Dim ond at ddibenion asesu hanfodol y gellir trefnu ymweliadau â'r gweithle, a hynny yn amodol ar wiriadau iechyd a diogelwch.	
Lleoliadau gwaith (dysgwyr addysg bellach a dysgwyr dan hyfforddiant)	Gellir eu trefnu yn unol â chanllawiau'r diwydiant ar gyfer y sector priodol, ac yn amodol ar wiriadau iechyd a diogelwch yn y gweithle.		Gellir eu trefnu, lle mae cyfyngiadau'r coronafeirws yn effeithio ar allu busnesau i fod ar agor, ac yn amodol ar wiriadau iechyd a diogelwch yn y gweithle, lle mae lleoliad yn rhan annatod o gwrs ac yn hanfodol i gwblhau cymhwyster. Ni ddylai lleoliadau gwaith newydd ddechrau ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn hyfforddeiaeth.	

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Canllawiau gweithredu diogel: darparwyr dysgu ôl-16](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredu-diogel-darparwyr-dysgu-ol-16-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).